

CYNGOR SIR YNYS MÔN

ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	2 MAWRTH 2020
PWNC:	DEFNYDDIO CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS
PENNAETH GWASANAETH	MARC JONES (EST. 2601)
AWDUR YR ADRODDIAD: E-BOST:	GARMON WILLIAMS GARMONWILLIAMS@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	Amherthnasol

A - Argymhellion/argymhellion a rheswm/rhesymau

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Bydd yr adroddiad yn nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn ar gyfer 2020/21 ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â dyrannu balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2020/21.

2. ARGYMHELLION

- I nodi'r polisi cyffredinol ynglŷn â chronfeydd wrth gefn a balansau a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A;
- Cymeradwyo'r newid i'r polisi cyffredinol ar gronfeydd wrth gefn a balansau a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A;
- Pennu isafswm balansau cyffredinol o £7.11m ar gyfer 2020/21 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151;
- I gynllunio am gynnydd yn y balansau cyffredinol dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd er mwyn sicrhau fod lefel gwirioneddol y cronfeydd wrth gefn yn cyrraedd y lefel sylfaenol. Cyflawnir y cynnydd yma drwy gyllidebu am wargedau blynyddol a gynllunnir;
- Cadarnhau parhad y cronfeydd wrth gefn presennol a glustnodwyd;
- Cymeradwyo trosglwyddo cronfeydd wrth gefn Morgeisi Gofalwyr Maeth a System Rheoli Polisiâu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i'r Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol.

B - Pa opsiynau eraill a ystyriwyd gennych a pham y bu i chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd unrhyw opsiwn arall – nid oedd hynny'n briodol yn yr achos hwn.

C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r Cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gynigion ar y gyllideb terfynol cyn i'r Cyngor ei hystyried.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Amherthnasol

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae sylwada'r UDA wedi eu cynnwys yn yr adroddiad
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Dim sylwadau
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol eraill	
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
Atodiad A - Polisi cyffredinol arfaethedig ynglŷn â Chronfeydd Wrth Gefn a Balansau Atodiad B – Balansau hyd yma		
FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		

DEFNYDDIO BALANSAU CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1 Mae Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ei angen ar gyfer gwariant a amcangyfrifir yn y dyfodol wrth gyfrifo anghenion y gyllideb. Mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 adrodd yn ffurfiol ar gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig pan bennir gofynion y gyllideb ac i sicrhau bod yna brotocolau allweddol ar gyfer eu pennu a'u defnyddio.
- 1.2 Bydd yr adroddiad yn nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn ar gyfer 2020/21 ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â chlustnodi balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2020/21.

2 POLISI AR GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

- 2.1 Yn ychwanegol at y balansau cyffredinol, mae'r Cyngor yn dal nifer o gronfeydd wrth gefn ar ei fantolen. Pwmpas y cronfeydd wrth gefn hyn yw talu costau prosiectau a gynlluniwyd neu ar gyfer cyllido eitemau penodol o wariant pryd bynnag fo angen gwneud hynny.
- 2.2 Mae'r ddogfen ynghlwm fel Atodiad A yn nodi'r egwyddorion cyffredinol a'r polisi mewn perthynas â phenderfynu ar lefel cronfeydd wrth gefn a balansau digonol a sut y defnyddir cronfeydd wrth gefn.

3 BALANSAU CYFFREDINOL

- 3.1 Ar 31 Mawrth 2019, lefel y balansau cyffredinol oedd £5.912m, sef gostyngiad o £987k ers y flwyddyn flaenorol.
- 3.2 Fel y nodir yn Atodiad A, paragraff 5, bydd angen i'r Swyddog Adran 151 asesu nifer o risgiau wrth benderfynu ar lefel y balansau cyffredinol sydd eu hangen. Ystyrir y risgiau isod:-
 - **Pwysau ar gostau'r dyfodol** – Wrth i gyllidebau leihau, mae gallu gwasanaethau unigol i ddefnyddio unrhyw gapasiti dros ben o fewn eu cyllidebau presennol i gyllido pwysau cost annisgwyl yn llawer anoddach a, phan geir pwysau o ran costau, mae cyllido'r pwysau hyn wedyn yn disgyn ar y balansau cyffredinol. Mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol ar hyn o bryd yn ystod 2019/20, yn arbennig yn y gwasanaethau Oedolion, Plant ac Addysg. Mae'r gyllideb ar gyfer 2020/21 yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r galw yn y meysydd hyn, fodd bynnag, mae perygl o alwadau pellach ar falansau cyffredinol a chynhelir adolygiadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn.
 - **Arbedion** – Mae arbedion posib o £343k wedi eu nodi ar gyfer cyllideb 2020/21. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan Aelodau mewn perthynas â £57k o'r arbedion arfaethedig. Gallai'r sefyllfa newid eto yn dilyn ymgynghori â'r cyhoedd. Er bod risg na fydd yr holl arbedion yn cael eu gwireddu, dylai'r broses herio a gynhaliwyd sicrhau bod y risg yn cael ei lleihau ac na fydd yna unrhyw alwadau dilynol sylweddol ar y balansau cyffredinol.

- **Chwyddiant a Chyfraddau Llog** – Ni chytunwyd ar ddyfarniadau cyflog ar gyfer staff NJC eto. Ar gyfer athrawon, mae chwyddiant prisiau o 2.75% yn berthnasol tan fis Medi 2020 ac ni wyddys ar hyn o bryd beth fydd lefel chwyddiant yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae chwyddiant yn 1.3% (CPI – Rhagfyr 2019). Fodd bynnag, nid yw'r rhagolygon diweddaraf yn dangos y bydd chwyddiant yn codi yn ystod 2020/21, a disgwylir iddo fod o gwmpas 1.8% erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2020/21. Mae tua £58m o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar gyflenwadau a gwasanaethau lle bydd cynnydd yn y pris wrth i chwyddiant godi. Gallai cynnydd o 1% mewn chwyddiant ychwanegu £580k at gostau'r Cyngor (tua 0.4% o'r gyllideb net). Er bod chwyddiant yn dal i fod yn risg, mae gan y Cyngor ddigon o arian wrth gefn i gyllido cynnydd sydyn mewn chwyddiant. Mae'r holl chwyddiant yn gysylltiedig â chytundebau sy'n hysbys wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb ac ychwanegwyd chwyddiant cyfartalog fesul adran o 3% ar incwm.
- **Incwm** – Mae sicrhau bod cyllidebau incwm yn cael eu gwireddu bob amser yn anodd ei warantu, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau dewisol pan fo cwsmeriaid yn gallu dewis prynu'r gwasanaeth neu beidio. Mae'r broses o bennu cyllideb 2020/21 wedi adolygu tueddiadau incwm real ac mae cyllidebau incwm wedi cael eu hail-alinio pan ystyriwyd y byddai'r gwir incwm yn sylweddol is na'r gyllideb. Ni ellir anwybyddu'r risg na fydd targedau incwm yn cael eu gwireddu ac y gall hynny olygu y byddai'r gwariant net yn uwch na'r gyllideb gyffredinol, ac y byddai'n rhaid defnyddio'r balansau cyffredinol i dalu am y diffyg hwnnw.
- **Balansau Ysgolion** – Mae Cronfa Wrth Gefn balansau ysgolion wedi gostwng yn sylweddol a'r balans ar 31 Mawrth 2019 oedd £0.631m. Mae'n debygol iawn y bydd balans y gronfa wrth gefn hon wedi gostwng eto yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.
- **Sefyllfa Ariannol Gyffredinol y Cyngor** - Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dda ar hyn o bryd, gyda lefel derbyniol o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. Mae'r rhaglen gyfalaf yn y dyfodol wedi'i chyllido ac mae Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor tua £25m yn is na'r ffin weithredol, ac £30m yn is na'r terfyn statudol a ganiateir.

- 3.3** Nid oes reol bendant ynghylch lefel y balansau cyffredinol y dylai Cyngor ei chynnal, er bod rheol fras yn bodoli sy'n nodi y dylai lefel y balansau cyffredinol fod yn 5% o'r gyllideb refeniw net. Y rhagamcaniad ar hyn o bryd yw y bydd y gyllideb refeniw yn gorwario tua £1.24m yn 2019/20, swm y bydd rhaid ei gyllido o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Yn ogystal, bydd £425k yn cael ei symud i gronfa wrth gefn gwasanaeth os bydd y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo hynny. Gan gymryd yr holl faterion hyn i ystyriaeth, amcangyfrifir y bydd lefel y balansau cyffredinol yn gostwng i thua £4.6m erbyn 31 Mawrth 2020.
- 3.4** Mae dal balansau cyffredinol yn rhoi sicrwydd ariannol i'r Cyngor, ond mae dal balansau yn ddiangen yn golygu nad yw adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Ar ôl asesu'r risgiau ariannol sylfaenol sy'n wynebu'r Cyngor, yr hyblygrwydd cyfyngedig sydd gan ddeiliaid cyllidebau bellach wrth reoli eu cyllidebau a'r angen i ryddhau cyllid er mwyn gwireddu arbedion effeithiolrwydd y dyfodol, rwy'n asesu y dylid pennu isafswm balansau cyffredinol o £7.1m (5% o'r gyllideb refeniw net arfaethedig ar gyfer 2020/21).
- 3.5** Y balans a amcangyfrifir ar 31 Mawrth 2020 ar gyfer y balansau cyffredinol yw £4.6m, £2.5m yn is na'r isafswm a gyfrifwyd. Dan yr amodau ariannol presennol, nid yw'n bosib cyllido ar gyfer gwarged yn y gyllideb er mwyn sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn cyrraedd y lefel sylfaenol a rhaid cynyddu'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn fwy graddol dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd.

4 CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

4.1 Mae Cronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd yn perthyn i categorïau penodol, fel a ganlyn:-

- Cronfeydd Cyfalaf wrth gefn – y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i gyllido'r rhaglen gyfalaf;
- Cronfeydd wrth gefn Cyfyngedig – y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i dalu am gostau posib yn y dyfodol, mae'r defnydd ohonynt yn cael ei gyfyngu i bwrpas penodol a ni ellir eu rhyddhau at unrhyw ddiben arall, cyllid gaiff ei ddal gan y Cleient ar ran trydydd parti neu gronfa wrth gefn sy'n gysylltiedig â'r gyllideb ddatganoledig ysgolion ac na ellir ei hailldyrannu;
- Cronfa wrth gefn CRT – cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu clustnodi ar gyfer y CRT;
- Cronfa wrth gefn Yswiriant – cronfa wrth gefn sydd ei hangen i dalu costau unrhyw golledion anyswiriedig a thaliadau dros ben y polisi fydd i'w talu gan y Cyngor;
- Cronfeydd wrth gefn Dal Grantiau – cronfeydd wrth gefn yn dal swm unrhyw grant a dderbyniwyd nad yw wedi cael ei ddefnyddio;
- Cronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd – cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi i wasanaethau ar gyfer prosiectau penodol.

4.2 Dangosir balans y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2019 a'r balans rhagamcanedig ar gyfer 31 Mawrth 2020 ar gyfer pob un o'r categorïau yn Nhabl 1 isod (atodir dadansoddiad llawn o bob categori fel Atodiad B):-

Tabl 1
Crynodeb o Falansau Cronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd

Categori'r Gronfa wrth gefn	Balans ar 31 Mawrth 2019 £	Symudiad yn ystod 2019/20 £	Rhagamcan o'r Balans ar 31 Mawrth 2020 £
Cyfalaf	1,111,408	-116,219	995,189
Clustnodwyd	4,091,954	-667,751	3,424,203
Tâl Cyfartal	363,305	-4,818	358,487
Dal Grantiau	343,907	-99,366	244,541
Yswiriant	1,250,000	0	1,250,000
Cyfyngedig	2,721,787	-447,011	2,274,776
CYFANSWM	9,882,361	-1,325,165	8,547,196

4.3 Mae'r gronfa wrth gefn gyfyngedig yn cynnwys nifer o gronfeydd wrth gefn unigol sylweddol: Cefnogi Pobl £804k, Incwm Proses Ailgylchu £635k a chronfa wrth gefn Gwaith Trin Gwastraff Gogledd Cymru £679k.

4.4 Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant wedi asesu bod angen £1.25m er mwyn sicrhau bod digon ar gael i dalu am golledion anyswiriedig posib a thaliadau dros ben.

4.5 Roedd cronfa'r morgeisi Gofalwyr Maeth (£66k) yn addasiad cyfrifyddu a wnaed yn ystod y broses o gau cyfrifon y llynedd. Roedd hyn oherwydd ansicrwydd ar y pryd. Mae'n amlwg bellach y gellir symud y gronfa wrth gefn hon i Wasanaethau Plant i gyllido'r gwaith o aiddosbarthu'r morgais yn arwystl cyfreithiol yn hytrach na chael ei gario fel dyled ar fantolen y Cyngor.

4.6 Nid oes unrhyw ddibenion eraill i gronfa wrth gefn y System Rheoli Polisi (£8k) ac, felly, rydym yn argymhell bod y balans sy'n weddill yn cael ei symud i'r adain TGCh. Mae hyn oherwydd y drwydded flynyddol a chostau cynnal a chadw'r system bolisi sydd bellach yn dod yn gyfrifoldeb yr adain TGCh.

- 4.7** Mae'r Gronfa wrth gefn CRT wedi'i chlustnodi a dim ond i gyllido gwariant sy'n gysylltiedig â'r CRT y gellir ei defnyddio. Mae'r Cynllun 30 Mlynedd newydd yn awgrymu y bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio'n llawn erbyn 2020/21 a'i bod yn bosib y gallai cyllido cartrefi newydd greu gofyniad i fenthyca swm bychan. Fodd bynnag, mae'n ddarbododus cadw balans o £1.3m ar gyfer digwyddiadau annisgwyl o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl.

5 CRONFEYDD WRTH GEFN GWASANAETHAU

- 5.1** Cytunwyd eisoes i ddilyn dull newydd o ymdrin â than neu orwariant gwasanaethau ar ddiwedd blwyddyn ariannol sydd yn codi o gyllidebau y gall y sawl sy'n gyfrifol amdanynt reoli'r costau, nad ydynt yn cael eu harwain gan y galw. Gall gwasanaethau sy'n tanwario ar gyllidebau y gellir eu rheoli, nad ydynt yn cael eu harwain gan y galw, drosglwyddo'r tanwariant i gronfa wrth gefn gwasanaeth er mwyn helpu i reoli pwysau yn y dyfodol, neu i gyllido prosiectau nad oes darpariaeth ar eu cyfer yn y gyllideb. Uchafswm balans y gronfa wrth gefn gwasanaeth fydd £75k neu 2.5% o'r gyllideb gwasanaeth net, pa un bynnag yw'r uchaf. Os yw tanwariant gwasanaeth ar gyllidebau y gellir eu rheoli yn golygu bod cronfa wrth gefn y gwasanaeth yn uwch na'r swm a ganiateir, bydd y gweddill yn cael ei drosglwyddo i falansau cyffredinol y Cyngor. Yn yr un modd, os yw gwasanaethau'n gorwario ar gyllidebau y gellir eu rheoli, bydd y gorwariant yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r dull hwn yn gwobrwyo Penaethiaid Gwasanaeth am danwario os oes modd gwneud hynny heb gael effaith ar ddarparu gwasanaethau, ond mae'n golygu bod Penaethiaid Gwasanaeth yn fwy atebol am eu gwariant. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn y gronfa wrth gefn gyffredinol a chynnydd yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, ond bydd yn parhau i fod yn rhan o'r cronfeydd wrth gefn y gall y Cyngor eu defnyddio. Fodd bynnag, bydd y Swyddog Adran 151 yn cadw'r hawl, dan amgylchiadau eithriadol a chyda chaniatâd y Pwyllgor Gwaith, i dynnu'r cronfeydd wrth gefn gwasanaeth hyn yn ôl lle bo'r angen oherwydd rhesymau ariannol. Yn yr un modd, os yw gorwariant yn cael ei ddwyn ymlaen, gall y Swyddog Adran 151 argymhell, dan amgylchiadau eithriadol, bod y cyfan neu gyfran o'r swm hwn yn cael ei gyllido o'r gronfa wrth gefn gyffredinol.
- 5.2** Mae Atodiad C, sy'n seiliedig ar ragamcan o alldro Chwarter 3 ar gyfer 2020/21, yn enghraifft o sut y byddai hyn yn gweithio ac yn darparu'r manylion. Os yw alldro'r Cyngor yn unol â'r hyn a ddisgwylir yn Ch3, h.y. gorwariant cyffredinol o £1.246m, drwy ddefnyddio'r dull newydd byddai £1.673m o orwariant yn trosglwyddo i'r gronfa wrth gefn gyffredinol a £427k o danwariant yn trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn gwasanaethau.

6 ARGYMHELLION

- 6.1** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r argymhellion canlynol:-

- 1.** Nodi'r polisi cyffredinol ynglŷn â chronfeydd wrth gefn a balansau fel y nodir hynny yn Atodiad A;
- 2.** Cymeradwyo'r newid i'r polisi cyffredinol ar gronfeydd wrth gefn a balansau ym mhwynt 8 cronfeydd wrth gefn gwasanaeth yn Atodiad A;
- 3.** Pennu isafswm balansau cyffredinol o £7.11m ar gyfer 2020/21, yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151;
- 4.** Cynllunio am gynnydd yn y balansau cyffredinol dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd er mwyn sicrhau bod lefel gwirioneddol y cronfeydd wrth gefn yn cyrraedd y lefel sylfaenol. Cyflawnir y cynnydd yma drwy gyllidebu am wargedau blynyddol a gynllunnir;
- 5.** Cadarnhau parhad y cronfeydd wrth gefn presennol a glustnodwyd, Atodiad B;
- 6.** Cymeradwyo trosglwyddo cronfeydd wrth gefn Morgeisi Gofalwyr Maeth a System Rheoli Polisiâu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i'r Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol.

POLISI CYFFREDINOL AR GRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU**1. Pwrpas**

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn gynnal cronfeydd wrth gefn ariannol digonol er mwyn bodloni anghenion y sefydliad. Pwrpas y polisi hwn yw nodi'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi i'r Cyngor yr hyblygrwydd sydd ei angen arno, a hefyd er mwyn sicrhau y'u defnyddir i ychwanegu gwerth i'r sefydliad.

2. Cyd-destun Rheoleiddiol

Mae Adrannau 32 a 43 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen ar gyfer gwariant a amcangyfrifir yn y dyfodol wrth gyfrifo gofynion y gyllideb.

Nid oes yna isafswm cronfeydd wrth gefn penodol y dylai awdurdod ei ddal, ac mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Adran 151 adrodd yn ffurfiol ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig pan bennir gofynion y gyllideb ac i sicrhau bod yna brotocolau allweddol ar gyfer eu pennu a'u defnyddio.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r fframwaith ar gyfer defnyddio a rheoli cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy, yn unol â Chôd Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (CIPFA/LASAAC) ac y cytunir ag ef mewn polisïau cyfrifyddu.

3. Mathau o Gronfeydd wrth Gefn

Gellir categorïo cronfeydd wrth gefn refeniw defnyddiadwy mewn dwy ffordd:-

Cronfeydd wrth gefn cyffredinol ar gyfer lliniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau; a

Cronfeydd wrth gefn a Glustnodwyd sydd, fel arfer, yn cael eu cynyddu er mwyn talu am rwymedigaethau hysbys neu rwymedigaethau a ragwelir.

Fel arfer, caiff Cronfeydd wrth gefn Refeniw a Glustnodwyd eu creu a'u dal am un o'r pum prif reswm isod:-

- i. Adnewyddu – er mwyn galluogi gwasanaethau i gynllunio a chyllido rhaglen effeithiol o adnewyddu cerbydau ac offer a gwaith cynnal a chadw eiddo a gynllunnir. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn fecanweithiau ar gyfer hwyluso gwariant fel y gellir cyflawni rhaglen adnewyddu resymol heb yr angen i amrywio cyllidebau.
- ii. Tanwariant a ddygir ymlaen - mae rhai gwasanaethau yn ymrwymo gwariant i brosiectau, ond heb allu gwario'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Defnyddir y cronfeydd wrth gefn fel mecanwaith i gario'r adnoddau hyn ymlaen.
- iii. Cyfrifon masnachu - mewn rhai achosion, cedwir gwargedion ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol.
- iv. Cronfa wrth gefn Yswiriant - er mwyn talu am yr hawliadau sy'n cael eu rhagamcanu yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Cyngor i dalu am y taliadau dros ben nad yw'r yswiriant yn atebol amdanynt.
- v. Bydd cronfeydd wrth gefn eraill a glustnodwyd yn cael eu sefydlu o dro i dro er mwyn talu am rwymedigaethau hysbys neu rwymedigaethau a ragamcanir, er enghraifft, pwysau ar alwadau cyllidebau a ragamcanir yn y dyfodol.

Tra bod cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu sefydlu at ddiben penodol, mae cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn gronfeydd na chyfyngir ar y defnydd a wneir ohonynt. Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn o'r fath i liniaru effaith pwysau sylweddol o un flwyddyn i'r llall, i wrthbwysu'r gofynion ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn a liniaru risgiau digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

Hefyd, gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol er mwyn cefnogi buddsoddiadau a ddyluniwyd i sicrhau mwy o arbedion yn y gyllideb sylfaenol.

4. Rheoli Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddal a chynnal cronfeydd wrth gefn, ond mae hefyd yn cydnabod, drwy ddal neu gynyddu cronfeydd wrth gefn, bod y Cyngor yn clustnodi adnoddau rhag cael eu defnyddio at ddibenion eraill posibl ac, o ganlyniad i hynny, mae yna 'gost cyfle' sy'n gysylltiedig â dal balansau fel cronfeydd wrth gefn. Oherwydd hyn, mae'n bwysig sefydlu fframwaith eglur, a adolygir yn rheolaidd, y gellir ei defnyddio i reoli'r cyfryw gronfeydd wrth gefn.

Mae rheoli cronfeydd ariannol wrth gefn yn elfen allweddol o strategaeth ariannol gyffredinol y Cyngor, ac mae iddi ddau amcan allweddol:-

- Cynnal cyllidebau sefydlog a chynaliadwy drwy gydol y tymor canolog; a
- Sicrhau bod adnoddau yn canolbwyntio'n effeithiol ar flaenoriaethau.

Mae'r gydnabyddiaeth a roddir i'r angen i reoli risg wrth wraidd y broses o wireddu'r amcanion hyn. Gall hyn fod yn fwy o risg o ansefydlogrwydd mewn tybiaethau cynllunio wrth i'r cyfnod economaidd ansicr barhau, neu'r risg i gyllideb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i adolygiadau cyllido sylweddol yn y dyfodol. Fodd bynnag, efallai bydd y busnes am gymryd mwy o risgiau busnes drwy fabwysiadu dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau er mwyn cyrraedd targedau anodd mewn perthynas ag arbedion. Po fwyaf y risgiau, y mwyaf yw'r cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor yn debygol o fod angen dal gafael arnynt er mwyn lliniaru yn erbyn hynny. Mae'n rhaid i werthfawrogi risgiau o'r fath fod yn flaenllaw yn ystyriaethau'r Swyddog Adran 151.

5. Mesur yr angen am Gronfeydd wrth Gefn

Mae pennu lefel y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig wrth ffurfio'r Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) a'r gyllideb flynyddol. Wrth wneud y penderfyniad hwn mae angen ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn benodol, mae'r CATC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu a chynnal cronfeydd wrth gefn cyffredinol digonol i dalu am y risgiau ariannol allweddol fydd yn ei wynebu.

Bydd angen i'r Swyddog Adran 151 ystyried nifer o ffactorau wrth benderfynu ar union lefelau'r cronfeydd wrth gefn, ac mae nifer ohonynt yn golygu asesu risg y tybiaethau sy'n gynwysedig yn y gyllideb a'r CATC, yn ogystal â sefyllfa ariannol y Cyngor a sut y rheolir ei arian.

Nodir y ffactorau allweddol isod:-

Rhagdybiaethau'r Gyllideb;

Sefyllfa ariannol a rheolaeth ariannol;

Gofynion cyffredinol ar y llif arian, y rhagolwg ar gyfer chwyddiant a chyfraddau llog;

Sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor (lefel y benthyciadau, dyled ac ati);

Amcangyfrif o lefel ac amseru'r derbyniadau cyfalaf;

Hanes y Cyngor mewn perthynas â rheoli'r gyllideb a rheolaeth ariannol, yn cynnwys cadernid ei gynlluniau tymor canolog;

Ystod posibl costau gwasanaethau a arweinir gan y galw;

Capasiti'r Cyngor i reoli pwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn;

Arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd / enillion cynhyrchiant;

Cryfder y wybodaeth ariannol a'r trefniadau adrodd;

Y risgiau ariannol sy'n rhan annatod o unrhyw bartneriaethau cyllido newydd sylweddol;

Trefniadau allanol mawr neu ddatblygiadau cyfalaf mawr;

Trefniadau trosglwyddo'r Cyngor a'r gweithdrefnau diwedd blwyddyn mewn perthynas â than/gorwariant yn y gyllideb;

Argaeledd cronfeydd eraill er mwyn talu am ddigwyddiadau annisgwyl mawr a digonolrwydd darpariaethau;

Digonolrwydd trefniadau yswiriant y Cyngor er mwyn talu am risgiau anrhagweladwy mawr.

Bydd gwerthusiad gwrthrychol o'r ffactorau yma'n cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn penderfynu ar lefel ddarbodus cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn seiliedig ar asesiad o'r ffactorau uchod. Fodd bynnag, mae lefel derfynol y cronfeydd wrth gefn yn y pen draw yn ddarostyngedig i farn y Swyddog Adran 151, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol.

Fel rhan o'r argymhellion cyllideb blynyddol i'r Cyngor, bydd y Swyddog Adran 151 yn amlygu'r symiau sy'n cael eu neilltuo ar gyfer y cronfeydd wrth gefn.

6. Cynyddu Cronfeydd wrth Gefn

Petai'r Swyddog Adran 151 yn ystyried y dylid cynyddu lefel y Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol, byddai hynny'n cael ei gyflawni fel rhan o'r broses o bennu cyllideb, gan bennu dyraniad o'r gyllideb flynyddol er mwyn cyrraedd lefel y balans a ddymunir. Dylai cyfraniadau i ac o'r Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol gael eu hadolygu'n flynyddol. Bydd hyn yn ychwanegol at unrhyw symiau fydd eu hangen i ailgyflenwi'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn flaenorol, er mwyn cynnal isafswm lefel y cronfeydd wrth gefn.

Bydd cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn cael eu sefydlu yn 'seiliedig ar angen', yn unol â'r gofynion a gynlluniwyd neu a ragdybiwyd, a byddant yn destun cymeradwyaeth Pwyllgor, fel arfer fel rhan o adroddiad blynyddol ar y cronfeydd wrth gefn sy'n rhan o'r adroddiad diwedd blwyddyn.

Yn achos pob cronfa wrth gefn o'r fath, bydd y Cyngor yn diffinio:-

Pwrpas y gronfa wrth gefn;

Sut a phryd y gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn;

Gweithdrefnau ar gyfer rheoli a defnyddio'r gronfa wrth gefn;

Proses ac amserlen ar gyfer adolygu'r gronfa wrth gefn er mwyn sicrhau perthnasedd a digonolrwydd parhaus.

Fel rheol bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn.

7. Defnyddio'r Cronfeydd wrth Gefn

Unwaith yn unig y gellir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn ac, oherwydd hynny ni ddylid eu defnyddio fel arfer i gyllido gwariant cylchol a gynlluniwyd - er enghraifft ni fyddai'n ddisgwyliedig iddynt gael eu defnyddio i 'gydbwyso'r gyllideb' heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

Pan fo cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gefnogi cyflawni'r gyllideb yn ystod unrhyw flwyddyn benodol, er enghraifft i leihau effaith amrywiadau cyllidebu neu wasgfeydd yn ystod nifer o flynyddoedd, dylai'r Cyngor sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hailgyflenwi yn ystod y flwyddyn ganlynol os bydd angen.

Pan fo'r Cyngor wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol at ddibenion buddsoddi er mwyn cynhyrchu arbedion, fel rheol byddai'r rhain hefyd yn cael eu had-dalu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ganlynol. Mewn amgylchiadau eithriadol, megis lleihau effeithiau tocio gwasanaethau ar ddefnyddwyr a dinasyddion, byddid yn caniatáu mwy o amser i ailgyflenwi, hyd at uchafswm o bedair blynedd, yn unol â'r cylch cynllunio tymor canolog.

Bydd y defnydd o gronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151, a'r Pwyllgor Gwaith mewn rhai amgylchiadau. Hefyd, bydd creu cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 a, phan fo'r gymeradwyaeth honno wedi cael ei rhoi, gellir tynnu cyllid o'r gronfa wrth gefn yn ddarostyngedig i fodloni'r meini prawf.

Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo cronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi cael eu gwagio o ganlyniad i bwysau anrhagweladwy ar wariant yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol benodol, byddai'r Cyngor yn gallu tynnu cyllid o'i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd er mwyn darparu adnoddau tymor byr, ond ni fyddai hynny'n gynaliadwy a byddai angen adfer y balansau.

Ni fyddai cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd sydd wedi'u defnyddio i dalu am rwymedigaeth benodol yn cael eu hailgyflenwi, ar ôl cyflawni'r diben y'u sefydlwyd ar ei gyfer yn wreiddiol.

8. Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau

Gellir creu cronfeydd wrth gefn gwasanaethau unigol ar gyfer 2020/21. Bydd y balans ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer pob gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo'n awtomatig i gronfa wrth gefn gwasanaeth. Caiff pob gwasanaeth ei hysbysu o'i balans unwaith y bydd Datganiad y Cyfrifon wedi'i gynhyrchu.

Pan fydd gwasanaeth wedi tanwario yn ystod y flwyddyn ariannol, bydd y balans i uchafswm o 2.5% o'u cyllideb net neu £75k cronol, yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn, a bydd unrhyw danwariant uwchlaw'r swm hwn yn cael ei drosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol.

Bydd unrhyw orwariant gan wasanaeth yn cael ei drosglwyddo yn ei gyfanrwydd i'r gronfa wrth gefn. Yna bydd angen i'r gwasanaeth lunio cynllun o'r ffordd y bydd yn ad-dalu'r gorwariant hwn a thros ba gyfnod o amser, bydd hyn yn amodol ar gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 ac, mewn rhai achosion, y Deilydd Portffolio Cyllid neu'r Pwyllgor Gwaith.

Lle mae gwasanaeth wedi profi cynnydd sylweddol yn y galwad am wasanaeth a bo hyn yn golygu gwario mwy na'r gyllideb sydd ar gael, bydd hawl gan y Pennaeth Gwasanaeth i ofyn am i'r gorwariant gael ei gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor yn hytrach nag arian wrth gefn y gwasanaeth. Bydd unrhyw gais yn amodol ar gymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 a'r Deilydd Portffolio Cyllid.

9. Cronfeydd Cyfalaf wrth Gefn

Mae'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2020/21 yn defnyddio'r holl gronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn llawn hyd at y lefel lleiafswm. Hyd yma, nid yw derbyniadau cyfalaf gwerthiant asedau strategol disgwylidig yn y dyfodol wedi cael eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf.

Mae strategaethau rheoli asedau da yn cynnwys ailgyflenwi asedau yn dilyn gwerthiant asedau strategol, fel y bydd yna asedau o werth strategol ar y fantolen ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

Gall yr Awdurdod hefyd ddefnyddio cronfeydd wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf a Chyfraniadau Refeniw na ddyrannwyd gwariant cyfalaf lle bo angen.

10. Gronfa wrth Gefn Yswiriant

Cafodd ffigwr y gronfa wrth gefn yswiriant ei gynyddu'n hanesyddol dros gyfnod o amser er mwyn talu am golledion o dan y polisiâu yswiriant mwy. Bydd lefel y Gronfa wrth gefn Yswiriant yn cael ei hadolygu yn flynyddol o leiaf gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant ac yn destun cymeradwyaeth y Swyddog Adran 151.

BALANSAU HYD YMA

ATODIAD B

Cyfarwyddiaeth	Cronfa Wrth Gefn	Categori	Fel ar 31 Mawrth 2019	Gwir wariant hyd yma – 2019/20	Amcangyfrif o'r gwariant sydd ar ôl 2019/20	A yw cais i ddwyn ymlaen i 2020/21 yn debygol?	Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn
Corfforaethol	Cyfraniadau Refeniw na Ddyrannwyd	GWARIANT CYFALAF	1,111,408	- 3,781	120,000	Ydyw – Mae cynlluniau prosiect yn rhychwantu mwy nag un flwyddyn ariannol. Balans a ddelir fel arian wrth gefn i gyllido gwariant cyfalaf.	995,189
Corfforaethol	Tâl Cyfartal	TÂL CYFARTAL	363,305	4,818	-	Ydyw – Mae'n ofynnol cadw'r gronfa wrth gefn tan ddiwedd 2021 oherwydd estyniad yn yr amser a ganiateir i wneud hawliad.	358,487
Corfforaethol	Buddsoddi i Arbed	CLUSTNODWYD	401,864	66,355	49,889	Ydyw - Mae cynlluniau yn rhychwantu mwy nag un blwyddyn ac mae pob prosiect ar wahanol lefel.	285,620
Corfforaethol	Cost Newid	CLUSTNODWYD	280,092	44,099	42,183	Ydyw – Defnyddir y gronfa hon i gyllido prosiectau newid sydd angen cyllid ychwanegol.	193,810
Corfforaethol	Prosiectau a Gyllidir gan Arian Wrth Gefn Cyfyngedig	CLUSTNODWYD	111,642	-	-	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido prosiectau yr ymrwymwyd iddynt yn flaenorol o'r gyllideb digwyddiadau annisgwyl, ond bu rhywfaint o lithriad yn y cynlluniau.	111,642

Cyfarwyddiaeth	Cronfa Wrth Gefn	Categori	Fel ar 31 Mawrth 2019	Gwir wariant hyd yma – 2019/20	Amcangyfrif o'r gwariant sydd ar ôl 2019/20	A yw cais i ddwyn ymlaen i 2020/21 yn debygol?	Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn
Corfforaethol – Adnoddau	Cronfa Wrth Gefn Yswiriant (Trychineb)	CRONFA YSWIRIANT	1,250,000	-	-	Ydyw – Ystyrir fod lefel yr arian wrth gefn yn dderbyniol gan y Rheolwr Yswiriant ar gyfer Awdurdod o'n maint.	1,250,000
Busnes y Cyngor – Adain Gyfreithiol	System Gyfrifiadurol Pridiannau Tir	CLUSTNODWYD	8,100	8,100	-	Amherthnasol	-
Busnes y Cyngor – Polisi	System Rheoli Polisi	CLUSTNODWYD	8,363	-	-	Amherthnasol	-8,363
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd	Isadeiledd Arhosfannau Bws	CLUSTONDWYD	54,392	-	-	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido eitemau'n ymwneud â chludiant cyhoeddus yn y dyfodol.	54,392
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd	Gwaith Cynnal a Chadw'r Gaeaf	CLUSTNODWYD	54,480	-	-	Ydyw – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei dwyn ymlaen oni bai bod achosion o dywydd garw yn ystod misoedd olaf y flwyddyn.	54,480
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd	Priffyrdd – Maes Awyr	CYFYNGEDIG	70,880	-	-	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn tuag at gostau rhedeg Maes Awyr Môn yn y dyfodol.	70,880
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd	Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Grant Llifogydd	CYFYNGEDIG	36,473	-	-	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn tuag at gyllido prosiectau llifogydd yn y dyfodol.	36,473
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Priffyrdd	Cronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfyngedig Priffyrdd – Llwybr yr Arfordir	CYFYNGEDIG	7,575	-	-	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn tuag at annu at gostau prosiectau llwybr arfordir yn y dyfodol.	7,575

Cyfarwyddiaeth	Cronfa Wrth Gefn	Categori	Fel ar 31 Mawrth 2019	Gwir wariant hyd yma – 2019/20	Amcangyfrif o'r gwariant sydd ar ôl 2019/20	A yw cais i ddwyn ymlaen i 2020/21 yn debygol?	Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff	Gwario i Arbed – Toiledau Cyhoeddus	CLUSTNODWYD	7,406	7,406	-	Amherthnasol	-
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff	Cronfa Wrth Gefn Gwastraff / Ailgylchu	DAL GRANT	267,476	222,366	-	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn tuag at gostau ailgylchu yn y dyfodol, yn unol ag amodau'r grant.	45,110
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff	Gwaith Trîn Gogledd Orllewin Cymru	CYFYNGEDIG	1,155,715	477,011	-	Ydyw – Mae cynlluniau i wario cyfran o'r gronfa wrth gefn yn 2020/21. Bydd rhaid cadw swm o £500k yn y gronfa wrth gefn.	678,705
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff – Rheoli Gwastraff	Incwm Proses Ailgylchu	CYFYNGEDIG	635,130	-	-	Ydyw - Mae amodau grant LIC yn mynnu bod rhaid defnyddio hwn at ddibenion ailgylchu yn y dyfodol.	635,130
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economaidd	Pier Biwmares – Paentio	CLUSTNODWYD	100,000	-	10,000	Ydyw – Mae'r gwaith wedi llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf, ac mae'n debygol o ddigwydd yn ystod haf 2020.	90,000
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economaidd	Datblygiadau Mawr	CLUSTNODWYD	232,508	33,460	-	Ydyw – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei chadw hyd nes gwneir penderfyniad terfynol ynghylch Wylfa Newydd.	199,048

Cyfarwyddiaeth	Cronfa Wrth Gefn	Categori	Fel ar 31 Mawrth 2019	Gwir wariant hyd yma – 2019/20	Amcangyfrif o'r gwariant sydd ar ôl 2019/20	A yw cais i ddwyn ymlaen i 2020/21 yn debygol?	Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economaidd	Cronfa Wrth Gefn Datblygu Economaidd – Ynys Ynni	CLUSTNODWYD	11,979	-	-	Ydyw – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei chadw hyd nes gwneir penderfyniad terfynol yn ynghylch Wylfa Newydd.	11,979
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economaidd	Datblygiadau Mawr – Cynllunio	CLUSTNODWYD	511,606	119,150	-	Ydyw – Bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei chadw hyd nes gwneir penderfyniad terfynol ynghylch Wylfa Newydd.	392,456
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Datblygu Economaidd	Costau Gweithredu Melin Llynnon	CLUSTNODWYD	12,708	-	5,000	Ydyw – Mae cyfran o'r gronfa wrth gefn wedi'i ddyrannu i dalu am gontractwr arbenigol fydd yn cynnal arolwg o gyflwr y felin.	7,708
Tai	Tai fforddiadwy	CLUSTNODWYD	250,643	-	- 100,000	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido costau dod â thai yn ôl i ddefnydd yn y dyfodol.	350,643
Tai	Cefnogi Pobl – Gweinyddu	CYFYNGEDIG	774,401	-	- 30,000	Ydyw – Mae cynllun i wario'r gronfa wrth gefn yn ystod y 9 blwyddyn ariannol nesaf, a disgwylir i'r adran gyfrannu cyllid ychwanegol at y gronfa wrth gefn hon.	804,401
Dysgu – Addysg	Prydau Ysgol am Ddim	CLUSTNODWYD	60,000	- 12,095	-	Ydyw – Cyllid dros ben o grant gan LIC mewn perthynas â'r Credyd Cynhwysol yw'r gronfa wrth gefn hon a disgwylir y bydd y cyllid wedi cael ei ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf.	72,095

Cyfarwyddiaeth	Cronfa Wrth Gefn	Categori	Fel ar 31 Mawrth 2019	Gwir wariant hyd yma – 2019/20	Amcangyfrif o'r gwariant sydd ar ôl 2019/20	A yw cais i ddwyn ymlaen i 2020/21 yn debygol?	Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn
Dysgu – Addysg	TRAC	DAL GRANT	36,000	-	- 136,000	Ydyw – Mae'r gronfa wrth gefn yn darparu sicrwydd rhag ofn y bydd cyllid Ewropeaidd yn cael ei gymryd yn ôl, yn ogystal â darparu clustog rhag ofn y bydd diffyg mewn cyllid cyfatebol ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r prosiect – bydd y prosiect yn rhedeg tan 2023/24.	172,000
Dysgu - Addysg	Cynllun Salwch / Hysbysebu – Cynradd	CYFYNGEDIG	35,873	-	-	Ydyw – Pwrpas y gronfa wrth gefn yw darparu yswiriant mewnol i ysgolion sy'n cael eu heffeithio gan salwch staff.	35,873
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – Hamdden	Hamdden (Hawliad TAW)	CLUSTNODWYD	772,633	10,479	90,000	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido gwelliannau yn y gwasanaethau hamdden yn y dyfodol.	672,154
Dysgu Gydol Oes – Diwylliant	Cronfa Prynu'r Amgueddfa	CYFYNGEDIG	5,739	-	-	Ydyw - Cyllid wedi'i neilltuo o roddion i'r Oriel na ellir ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas arall yw hwn.	5,739
Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Cronfa Wrth Gefn Trwydded	CLUSTNODWYD	16,570	-	-	Ydyw – Mae cynlluniau i uwchraddio offer TG wedi llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf.	16,570

Cyfarwyddiaeth	Cronfa Wrth Gefn	Categori	Fel ar 31 Mawrth 2019	Gwir wariant hyd yma – 2019/20	Amcangyfrif o'r gwariant sydd ar ôl 2019/20	A yw cais i ddwyn ymlaen i 2020/21 yn debygol?	Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn
Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Cynllun Datblygu Lleol	CLUSTNODWYD	167,517	-	-	Ydyw - Pwrpas y gronfa wrth gefn yw cyllido'r cynllun datblygu lleol sy'n cael ei weithredu gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ran yr Awdurdod, yn ystod y ddwy flynedd nesaf.	167,517
Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Cronfa Wrth Gefn Prynu Gyda Hyder	CLUSTNODWYD	6,234	6,234	-	Amherthnasol	-
Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Chostau Cyfreithiol Cynllunio	CLUSTNODWYD	22,375	-	-	Ydyw - Yn ofynnol ar gyfer unrhyw achosion cyfreithiol mawr yn y dyfodol a all godi petai'r gwasanaeth yn gwario mwy na'u cyllideb.	22,375
Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Model Rhagfynegi Ansawdd Dŵr Ymdrochi	CLUSTNODWYD	10,000	275	725	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn i dalu am waith cynnal a chadw yr Orsaf Met am gyfnod o 10 mlynedd hyd 2028/29.	9,000
Rheoleiddio – Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	Cynllunio – Galluogrwydd a Chapasiti	CLUSTNODWYD	75,000	-	- 60,000	Ydyw – Mae cynlluniau i wario'r gronfa wrth gefn wedi llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'n debygol y bydd cynnydd o thua £60k yn y gronfa.	135,000
Adnoddau	Refeniw a Budd-daliadau	CLUSTNODWYD	34,992	-	17,362	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn i gyllido staff dros dro ac ymgynghorwyr yn ôl y galw.	17,630
Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant ac Oedolion	Unigolion Agored i Niwed Corfforaethol	CLUSTNODWYD	276,000	-	276,000	Amherthnasol	-

Cyfarwyddiaeth	Cronfa Wrth Gefn	Categori	Fel ar 31 Mawrth 2019	Gwir wariant hyd yma – 2019/20	Amcangyfrif o'r gwariant sydd ar ôl 2019/20	A yw cais i ddwyn ymlaen i 2020/21 yn debygol?	Amcangyfrif Diwedd Blwyddyn
Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant ac Oedolion	Trawsnewid	CLUSTNODWYD	33,561	-	-	Ydyw – Mae cynlluniau i wario'r gronfa wrth gefn yn 2020/21, pan y'i defnyddir i dalu costau gwaith maes mewn perthynas ag anableddau dysgu.	33,561
Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant ac Oedolion	Contractau Staff Gofal Cymdeithasol	CLUSTNODWYD	271,714	-	-	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn i dalu am staff asiantaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ychwanegolyn y dyfodol.	271,714
Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant ac Oedolion	Cronfa Wrth Gefn Morgeisi Gofalwyr Maeth	CLUSTNODWYD	65,650	-	-	Amherthnasol	65,650
Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant ac Oedolion	Cronfa Wrth Gefn Cyd-Gyllido – Gwasanaethau Cymdeithasol a Dysgu	CLUSTNODWYD	180,795	-	-	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn os oes diffyg yn y cyllid gan Gyrff Cyhoeddus mewn perthynas â lleoliadau gofal cymdeithasol.	180,795
Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant ac Oedolion	Gofal Nyrsio	CLUSNODWYD	53,129	-	53,129	Amherthnasol	0
Trawsnewid – AD	SCWDP	DAL GRANT	40,430	-	13,000	Ydyw – Defnyddir y gronfa wrth gefn i dalu costau hyfforddi Gweithiwr Cymdeithasol dan Hyfforddiant.	27,430
			9,882,361		351,288		8,473,183

ATODIAD C

TABL YN DANGOS Y DULL NEWYDD O YMDRIN Â CHRONFEYDD WRTH GEFN GWASANAETH YN SEILIEDIG AR RAGAMCAN CH3 AR GYFER 2019/20

[illegible]

Nodiadau

a = cyllideb refeniw net flynyddol ar gyfer y Gwasanaeth

b = 2.5% o (a) neu £75k, pa un bynnag sydd uchaf

c = rhagamcan o dan / gorwariant ar gyfer pob Gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 3

ch = y swm yr ystyrir nad oes modd i'r Gwasanaeth ei reoli ac a fydd yn cael ei gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor

d = y swm a gedwir gan bob Gwasanaeth fel Cronfa Wrth Gefn Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn

dd = swm yr arian wrth gefn a ddygir ymlaen am bob gwasanaeth

e = y swm a dynnir o'r swm a gedwir (d) i sicrhau nad yw balans Cronfa Wrth Gefn y Gwasanaeth yn uwch na'r uchafswm (b). Trosglwyddir y swm hwn i falansau cyffredinol y Cyngor fel credyd.

f = balans pob Cronfa Wrth Gefn Gwasanaeth a ddygir ymlaen i'w ddefnyddio yn 2020/21

ff = y swm i'w gyllido o falansau cyffredinol y Cyngor